# MANYLEB

# CYNNAL A CHADW'R TIR YM MAES Y FFYNNON

**CYFLWYNIAD**

Ym Maes y Ffynnon, Bangor y mae Pencadlys Cyfoeth Naturiol Cymru, corff cyhoeddus anadrannol, a chynghorwr statudol y llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a’r cyfle i fwynhau’r awyr agored ledled Cymru a dyfroedd ei glannau. Mae’r fanyleb hon ar gyfer cynnal a chadw’r tir ym Maes y Ffynnon.

**Y Rhestr Waith isod yw’r safon a ddisgwylir drwy gydol y flwyddyn ar gyfer pob maes gwaith.**

**<u>RHESTR WAITH AR GYFER MAES Y FFYNNON</u>**

**1.1 Uned 1 – Lawnt (Gwyrdd)**

- Dim torri rhwng 1 Mehefin a 31 Awst

- Torri 1m yn unig bob ochr i’r llwybrau yn ystod y cyfnod hwn

- Torri a Chadw yn 50 mm (5 cm) gyda 1m o ymylon heb eu torri o gwmpas llwyni a ffiniau eraill lle mae modd (darparu safleoedd clwydo/ gaeafu i infertebratau)

- Mynd â dail sydd wedi disgyn i’r biniau compost dynodedig ynghyd â glaswellt wedi’i dorri.

**1.2 Uned 2 – Cloddiau (Glas)**

- Osgoi torri cloddiau rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf i osgoi aflonyddu ar adar sy’n nythu

- Tocio cloddiau i gadw planhigion yn tyfu’n iach a sicrhau bod modd gweld ffenestri, goleuadau etc yn y safle ac ar y wal derfyn.

- Tocio’n ôl y canghennau sy’n rhwystro pobl rhag defnyddio llwybrau a ffyrdd yn rhwydd. Ychwanegu llystyfiant wedi’i docio at “bentyrrau cynefin” a nodir gan CNC.

- Gwaredu canghennau a ddifrodwyd sy’n beryglus i gerddwyr, ceir neu iechyd y planhigyn.

- Dim torri glaswellt yn yr ardaloedd a nodwyd yn gloddiau rhwng 1 Ebrill ac 1 Hydref. Yr ardaloedd hyn fel arfer fydd y clawdd uwch ei hun ac ardal glustogi 1 metr o waelod y clawdd. Lle mae ardal y clawdd yn gorgyffwrdd â llwybr neu’n ffinio â ffordd neu faes parcio, rhaid cadw’r llwybr yn glir o lystyfiant a allai rwystro pobl.

- Torri’r glaswellt a’i gadw’n 100 mm (10 cm) rhwng 1 Hydref ac 1 Ebrill, gydag 1m o ymylon heb eu torri o gwmpas llwyni ac ar hyd ffiniau eraill lle mae modd (darparu safleoedd clwydo/gaeafu i infertebratau). Mynd â’r holl lystyfiant a dorrwyd a’r dail sydd wedi disgyn i’r biniau compost dynodedig.

### 1.3 Uned 3 – Dôl Tegeirianau (Coch)

- Dim torri rhwng 1 Ebrill ac 1 Hydref

- I sicrhau y gellir defnyddio llwybrau, torri'r glaswellt i uchder o 50mm (5cm) 30 cm bob ochr i'r llwybrau yn ystod y cyfnod hwn.

- Bydd toriadau o doriad cyntaf yr hydref yn cael eu gadael ar y llawr yn y man a'r lle am wythnos cyn eu gwaredu (er mwyn i'r hadau o'r blodau gwyllt syrthio i'r ddaear).

- Ar bob adeg arall, dylid gwaredu'r llystyfiant a dorrwyd a'i gompostio yn y biniau dynodedig.

- Cadw'r glaswellt yn 50mm (5cm) rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth, gydag 1m o ymylon heb eu torri o gwmpas llwyni ac ar hyd ffiniau eraill os oes modd (darparu safleoedd clwydo/gaeafu i infertebratau).

- Mynd â dail sydd wedi disgyn i'r biniau compost dynodedig ar y safle.

### 1.4 Meysydd Parcio, Llwybrau, Ffyrdd a Waliau

- Eu cadw'n glir o bob mwsogl arwyneb, chwyn, dail etc sy'n cronni ac yn rhydd o unrhyw ddeunyddiau rhydd.

- Dylid gwaredu chwyn â llaw oddi ar lwybrau, meysydd parcio, ffyrdd, ardaloedd palmantog a waliau os oes modd. Os yw hyn yn amhosibl neu'n anymarferol, ceir defnyddio chwynladdwr sail glyffosad yn yr ardaloedd a nodir isod. Rhaid i chwynladdwyr felly:

    - Gael eu defnyddio gan staff sy'n addas o gymwysedig;
    - Cael eu defnyddio ar ddiwrnodau sych, llonydd yn unig lle nad yw ysgeintiad sydd wedi drifftio na dŵr ffo yn bosibl;
    - Cael eu cadw'n glir o bob llystyfiant arall heblaw'r chwyn y'u bwriedir i'w ladd;
    - Cael eu defnyddio dim ond ar adegau pan nad oes staff ar y safle a allai ledu'r chwynladdwr i ardaloedd eraill ar waelod eu hesgidiau.

- Ceir defnyddio chwynladdwr sail glyffosad i ladd chwyn parhaus yn yr ardaloedd canlynol:

    - Llinell ganol llwybrau drwy ardaloedd o lystyfiant a dolydd;
    - Ar yr uniad rhwng ffyrdd a'r cwrb;
    - Lle mae wal unrhyw adeilad neu strwythur yn cwrdd â llwybr, maes parcio neu ffordd; ac
    - Ar risiau a phatios.

**1.5 Uned 4 – Gwelyau blodau a phrysgwydd addurnol**

- Eu cynnal yn unol ag arfer garddwriaethol da i hyrwyddo tyfiant a blodeuo iachus y planhigion, gan nodi'r gofynion yn adran 2 (isod).
- Ychwanegu darnau coediog o lystyfiant wedi'i docio at "bentyrrau cynefin" i'w nodi gan CNC.
- Gwaredu gwastraff gwyrdd a dail sydd wedi cwympo a'u rhoi yn y biniau compost dynodedig.
- Dylid gwaredu glaswellt o welyau blodau, ond dylid caniatáu iddo dyfu islaw prysgwydd a llwyni.

**"Ardaloedd Infertebratau" Ardaloedd wedi'u marcio ag A neu B ar y cynllun atodedig**

- Bydd Ardal A ac Ardal B yn cael eu torri bob yn ail flwyddyn; yn y flwyddyn pan dorrir Ardal A, caniateir i Ardal B dyfu, ac yn y flwyddyn pan dorrir Ardal B, caniateir i Ardal A dyfu.
- Yn y blynyddoedd torri, bydd y llystyfiant yn cael ei dorri unwaith yn unig yn yr Ardal ddynodedig i 100mm (10cm) yn ystod mis Hydref.
- Bydd 1m o ymylon heb eu torri yn cael eu cynnal drwy'r amser yn y ddwy Ardal ar hyd ymylon y maes parcio, llwybrau troed, adeiladau a waliau eraill.
- Taflir yr holl doriadau ar unwaith i'r biniau compost dynodedig.
- Bydd gwaith tocio/tacluso cloddiau a choed yn cael ei wneud yn ystod mis Hydref yn unig yn y blynyddoedd pan fydd y llystyfiant wedi'i dorri yn yr Ardal honno. Nod y gwaith hwn fydd cynnal tyfiant iachus y planhigion a sicrhau bod modd gweld ffenestri, goleuadau, teledu cylch cyfyng etc yn y safle ac ar ffiniau eiddo gerllaw.
- Tocio canghennau'n ôl ar unrhyw adeg rhwng mis Gorffennaf a mis Mawrth yn y ddwy Ardal os ydynt yn atal pobl rhag defnyddio'r llwybrau a'r ffyrdd yn hawdd. Ychwanegu'r darnau wedi'u tocio at "bentyrrau cynefin" a nodir gan CNC. Os bydd angen y math hwn o waith, rhaid sicrhau bod llystyfiant yn cael ei fathru cyn lleied â phosibl.
- Gwaredu ar unwaith ganghennau a ddifrodwyd yn y naill Ardal neu'r llall sy'n peryglu adeiladau, cerddwyr, ceir neu iechyd y planhigyn. Os bydd angen y math hwn o waith, rhaid sicrhau bod llystyfiant yn cael ei fathru cyn lleied â phosibl.

2. <u>GWARCHOD YR AMGYLCHEDD – **Rhaid cydymffurfio â'r rhain**</u>

- Ni ddefnyddir chwynladdwyr heblaw fel y nodir yn adran 1.4 uchod
- Ni ddefnyddir plaladdwyr
- Ni ddefnyddir gwrteithiau
- Ni ddefnyddir chwythwyr aer mecanyddol heblaw bod y gweddillion yn cael eu casglu'n syth wedyn a'u compostio yn yr ardaloedd dynodedig ar y safle. Ni

chaniateir i weddillion aros ar ddolydd, lawntiau, llwybrau, meysydd parcio na ffyrdd.

- I warchod rhisgl coed a llwyni pan dorrir glaswellt, defnyddir peiriant torri gwrych sydd â gwarchodydd coed arno.

- Bydd darnau o goed a dociwyd, canghennau sydd wedi cwympo a deunydd coediog arall naill ai'n cael eu pentyrru yn "bentyrrau cynefin" neu eu sglodio. Cytunir ymlaen llaw ar leoliadau'r pentyrrau canghennau neu sglodion pren gyda chynrychiolydd CNC.

- Bydd dail a glaswellt yn cael eu casglu a'u compostio yn y biniau dynodedig ar y safle.

- Ceir defnyddio deunydd wedi'i gompostio'n llawn o'r biniau compost ar y safle fel tomwellt/i wella'r pridd ar welyau blodau.

Rhaid i bob contractwr waredu'n gywir unrhyw wastraff a gynhyrchir, gan ddefnyddio'r ddogfennaeth wastraff berthnasol.


Dylid rhoi gwybod i staff CNC ar unwaith am bob gollyngiad/argyfwng.

Mae'r Contractwr yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd neu a all gael ei chyflwyno yn y dyfodol.

## 5. PWYNTIAU CYFFREDINOL

Y contractwr sydd i gyflenwi'r holl beiriannau a'r offer angenrheidiol i wneud y gwaith.

**Maes-y-Ffynnon grounds maintenance**




| | Cut Only. | | |
|---|---|---|---|
| Area A | 2018 | 2020 | 2022 |
| Area B | 2017 | 2019 | 2021 |

~~Invertebrate Areas.~~